| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 28, Chwefror, 2013. |
| Pwnc | Pwyllgorau Ardal. |
| Awdur | Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Gofal Cwsmer. |

**Cefndir**

Cyflwynir yr adroddiad yma yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 21, Mehefin, 2012 i gael trafodaeth bellach ynglŷn â sefellfa'r pwyllgorau ardal.

1. Cychwynnwyd trafodaeth ynglŷn â dyfodol y pwyllgorau ardal ochr yn ochr â thrafodaeth ar sefydlu fforymau ardal fel rhan o'r gwaith grymuso cymunedau. Y bwriad oedd grymuso'r aelod lleol, gwella'r ymgysylltiad hefo cymunedau, cael gwell canlyniadau i'r ardal a gwneud gwell defnydd o adnoddau aelodau a swyddogion.

2. Cafwyd trafodaeth lawn ar y mater yn y Cyngor llawn ar y 21 Mehefin 2012 a chytunwyd y dylid sefydlu gweithgor trawsbleidiol gyda chynrychiolaeth o bob ardal i ddod a chynigion pendant gerbron am drefn fyddai'n cyfarfod a gofynion aelodau gan ystyried hefyd sut i roddi mwy o rym i'r pwyllgorau ardal.

3. Cytunwyd y dylid sefydlu pwyllgorau ardal ar gyfer pob un o ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd am gyfnod penodol o chwe mis, gan drafod y mater yn y cyfarfod hwn o'r Cyngor.

**Ystyriaethau**

4. Mae'r Gweithgor trawsbleidiol wedi cyfarfod ddwywaith, er mwyn ystyried beth yw cryfderau a gwendidau'r pwyllgorau ardal o ystyried y drefn rheolaethol newydd y mae'n rhaid i ni weithio iddynt ac mae'n amlwg fod yna ddymuniad cryf gan nifer o aelodau i gadw'r hunaniaeth Ardal, a'r hawl i drafod materion o'r persbectif hyn.

5. Mae'r gweithgor wedi nodi nifer o gryfderau yn eu tyb hwy ar gyfer y Pwyllgorau Ardal a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

    - Cyfle i gael trafodaeth wleidyddol ar sail ardal digon eang ond mewn fforwm llai na'r Cyngor cyfan lle na ellir cael trafodaeth ystyrlon.
    - Cyfle i aelodau ddysgu am wasanaethau lle nad ydynt yn aelod o'r pwyllgor craffu perthnasol.

- Cadw hunaniaeth ardaloedd hanesyddol.
- Ffordd o roddi gogwydd lleol ar herio gwasanaethau yn hytrach na'r gogwydd cyffredinol sirol a roddir gan y pwyllgorau craffu er mwyn medru cyfeirio unrhyw bryderon ymlaen at Bwyllgor Craffu perthnasol neu aelod Cabinet.

6. Fodd bynnag, roedd hefyd yn amlwg bod rhai rhwystredigaethau ynghylch a'r drefn pwyllgorau ardal, sef:

- Y ffaith gyfansoddiadol nad oedd hawliau penderfynu ganddynt
- Yr anhawster a'r amharodrwydd weithiau i adnabod eitemau a chyflwyno adroddiadau
- Yr argraff ei fod yn 'siop siarad' mewn gwisg pwyllgor.

7. Wrth edrych ymlaen felly, bu'r gweithgor yn ystyried sut oedd modd adeiladu ar gryfderau'r drefn ardal bresennol a hefyd cyfarch unrhyw rwystredigaethau sydd ynghlwm a hynny.

8. Bu i'r gweithgor ystyried yr opsiynau canlynol:

Opsiwn 1 – dileu'r Pwyllgorau Ardal heb unrhyw beth yn eu lle.

Opsiwn 2 – dileu'r Pwyllgorau Ardal gan eu disodli gyda Fforymau Ardal.

Opsiwn 3 - Parhau gyda'r Pwyllgorau Ardal yn eu ffurf bresennol.

Opsiwn 4 – Parhau gyda Phwyllgorau Ardal mewn ffurf addasedig.

9. Cafwyd cytundeb unfrydol o blaid Opsiwn 4, a chytunwyd ar y newidiadau canlynol i'r Pwyllgorau presennol er mwyn ychwanegu gwerth:

- Y dylid cynnal sesiynau mwy anffurfiol o fewn ardaloedd (heb yr hualau pwyllgor arferol) er mwyn cynnal deialog 'go iawn' a thrafodaeth ar lefel ardal.
- Er mwyn atgyfnerthu hyn, y dylid eu hail enwi yn "Cynulliad Ardal" er mwyn cydnabod y gwahaniaeth rhyngddynt a phwyllgorau ffurfiol y cyngor sydd yn medru penderfynu ar faterion o fewn eu maes llafur.
- Oherwydd maint fforwm Arfon ar gyfer cael deialog ystyrlon y dylid newid i 4 ardal (2 yn Arfon) fel bod y ddau "Gynulliad" yn ardal Arfon yn dod yn fwy tebyg o ran maint i rai Dwyfor a Meirionnydd.

- Y dylid gweithredu ar sail fod Aelod Cabinet yn rhoi adroddiad blynyddol ar yr hyn sy'n digwydd o fewn ei wasanaeth gyda gogwydd ar yr ardal benodol (oni bai fod hyn am ddigwydd yn y Cyngor) gydag unrhyw bwyntiau gweithredu yn cael eu cyfarch gan yr Aelod Cabinet neu drwy gyfeiriad i Bwyllgor Craffu.
- Dylid defnyddio'r trefniadau yma ar gyfer hyfforddiant
- Y dylid eu defnyddio i ymgynghori gydag aelodau lle mae angen rhoi cyfle i holl aelodau ardal benodol roddi mewnbwn i ddatblygiad polisi neu drefn
- Y dylent gynnal cyfarfod blynyddol gyda chynghorau cymuned/ busnesau lleol er mwyn ymddwyn fel pont rhwng y cyrff hynny a'r Cyngor.

**Sut fyddai hyn yn gweithio'n ymarferol ?**

10. Fe fyddai trefn ymarferol cynnal a rheoli'r Cynulliad Ardal yn fater i'r cynulliad ardal unigol ei hun ei reoli yn unol a chyfraith gyffredinol – byddai angen iddynt ethol Cadeirydd i gadeirio'r cyfarfod ac i drefnu'r rhaglen ar y cyd gyda'r swyddogion ond mater i'r Cynulliad Ardal fyddai penderfynu ar ba mor aml yr hoffent gyfarfod (hyd yn oed i benderfynu o gyfarfod i gyfarfod) a beth i'w drafod ( o gofio nad oes gan y pwyllgorau ardal hawl i gymryd penderfyniadau ar ran y Cyngor – ceisio dylanwadu yw eu rol)

11. Byddai'r swyddogion cefnogi aelodau ar gael i alw'r cyfarfodydd (drwy e-bost neu lythyr) ac yn nodi'r materion a drafodwyd a'r prif bwyntiau gweithredu ac yn cylchredeg y pwyntiau hynny wedyn i'r holl aelodau.

12. Ni fyddai hualau trefniadau cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor yn cyfyngu ar ystyried materion brys a.y.b.

13. Yn ymarferol, pe byddai Aelod Cabinet yn bwriadu datblygu cynllun fyddai'n berthnasol i ardal benodol (e.e. Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd; Ysgolion Uwchradd Meirionnydd; Ad-drfenu Cludiant Cyhoeddus yn Nwyfor) byddai Aelod Cabinet yn medru defnyddio'r Cynulliad Ardal i wyntyllu dyheadau a dymuniadau'r ardal wrth ddatblygu cynigion.

14. Pe byddai aelod yn ystyried fod yna fater gwasanaeth yn effeithio'n benodol ar yr ardal honno yn unig (e.e. darpariaeth gofal cartref yn Arfon) yna byddai modd gofyn i Aelod Cabinet ddod i'r cyfarfod Cynulliad Ardal i'w drafod er mwyn gwyntyllu'r problemau ac ystyried a oedd modd iddo neu iddi wneud rhywbeth am y broblem.

**Argymhelliad**

15. Argymhellir i'r Cyngor ei fod yn derbyn cynnig unfrydol y Gweithgor Trawsbleidiol i barhau gyda'r pwyllgorau ardal ond i ddiwygio'r ffordd y defnyddir hwy yn unol â'r hyn a ddisgrifir yng nghymalau 9 i 14 uchod.

**Nodyn**

16. Cafodd yr adroddiad yma ei drafod mewn cyfarfod o'r Grŵp Busnes 18 Chwefror 2013 - a bu iddynt gymeradwyo'r argymhelliad.
    Maent hefyd wedi cymeradwyo fod angen i'r mater cael ei werthuso eto ymhen blwyddyn.